COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 1/2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MAWRTH, 10 MAWRTH 2020, AM 14:30

Presennol

Y Cynghorydd – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| CE Smith | PJ White | HM Williams | D Patel |
| RE Young | HJ David | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Jackie Davies | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion |
| Nicola Bunston | Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb |
| Pete Tyson | Rheolwr Grŵp - Contractau Comisiynu a Monitro Contractau |

486. DATGANIADAU O FUDDIANT

Eitem 5, Contractau Cartrefi Gofal a Gofynion y Gronfa ar y Cyd - Cyhoeddodd y Cynghorydd Hywel Williams fuddiant personol yn yr eitem hon oherwydd bod ganddo berthynas yn byw yn Nhŷ Cwm Ogwr.

487. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod cofnodion cyfarfod y Cabinet ar 11 Chwefror 2020 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

488. AROLYGIAD CENEDLAETHOL AROLYGIAETH GOFAL CYMRU (AGC)

Croesawodd yr Arweinydd Katy Young, Arolygydd, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i'r cyfarfod.

Gwnaeth yr Arolygydd, AGC, gyflwyniad i'r Cabinet yn amlinellu'r cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella yn dilyn arolygiad o wasanaethau Oedolion Hŷn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a gynhaliwyd ym mis Medi 2019. Ar adeg yr arolygiad, roedd cynlluniau ar gyfer gwella ar waith yn barod ac roedd rhai o'r canfyddiadau'n adlewyrchu'r gwaith roeddent yn bwriadu ei ddatblygu yn barod. Roedd ffiniau newydd wedi'u cyflwyno ac roeddent yn cydnabod bod hwn wedi bod yn waith sylweddol, yn weithredol ac yn strategol.

Ychwanegodd yr Arolygydd, AGC ei bod wedi bod yn bleser cynnal yr arolygiad a bod staff a rheolwyr yn gadarnhaol ac yn awyddus i wneud yr hyn roedd angen ei wneud.

Gwnaeth yr Arweinydd ddiolch i'r Arolygydd am y trosolwg cadarnhaol ac am gydnabod bod yr awdurdod yn ceisio gwella.

Esboniodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar ei fod yn falch o'r adroddiad ac yn falch o'r staff, yn arbennig yng ngoleuni 10 mlynedd o gyni

ac ailstrwythuro. Roedd y gwasanaeth cyfan yn newid yng Nghymru ac roedd gweithio mewn partneriaeth yn chwarae rhan sylweddol yn hyn o beth.

Ychwanegodd y Dirprwy Arweinydd fod y rhain yn amseroedd digynsail o ran pwysau ar adnoddau. Roedd yn falch o'r adroddiad a oedd yn darparu hyder a boddhad. Gofynnodd a gafwyd unrhyw adborth am y cynllun gweithredu. Atebodd yr Arolygydd, AGC, ei fod yn fodlon bod y cynllun gweithredu yn cwrdd â gofynion a bod ond angen ystyried sut y byddai'n cael ei weithredu.

Esboniodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion fod yr arolygiad wedi bod yn gadarn, yn deg ac yn gytbwys ac y cafwyd nifer o ganfyddiadau allweddol fel y nodir yn yr adroddiad. Roedd y cynllun gweithredu ar gyfer mynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn yn cynnwys 17 o gamau gweithredu ar draws pedair thema.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ei bod yn falch bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cael ei ystyried yn sefydliad sy’n dysgu ac y cafwyd ymgysylltiad llawn â'r staff i gyd. Cafwyd pryderon ynghylch capasiti ledled Cymru ac roedd trafodaethau'n parhau ynghylch proffilio, tâl ac amodau. Roedd Strategaeth ar y cyd yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Cydnabuwyd bod arian grant yn effeithio ar allu'r cyngor i recriwtio. Roedd hefyd angen i'r cyngor fod yn fwy arloesol o ran eu dull o recriwtio, megis defnyddio Facebook a LinkedIn. Diolchodd i AGC am y ffordd y cynhaliwyd yr arolygiad a dywedodd ei fod wedi bod yn brofiad cadarnhaol.

Croesawodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau yr adroddiad yn arbennig yng ngoleuni 10 mlynedd o gyni. Roedd y sylwadau a gafwyd yn yr adroddiad yn ôl y disgwyl. Cynhaliwyd yr Arolygiad yn ystod cyfnod o newid mawr ac roedd yn falch o'r staff a'r sefyllfa roeddent ynddi.

Gofynnodd Aelod y Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau’r Dyfodol pryd byddai'r arolygiad nesaf yn cael ei gynnal. Esboniodd yr Arolygydd, AGC, fod rhaglen pedair blynedd a gweithgarwch â ffocws a gweithgareddau thematig yn cael eu cynnal bob blwyddyn hefyd. Caniatawyd amser i wneud gwelliannau rhwng ymweliadau ac i ddatblygu agenda'r awdurdod ei hun.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod ymgysylltu rheolaidd, agored ac adeiladol yn helpu'r ddau barti i weithio gyda'i gilydd.

PENDERFYNWYD: Cafodd yr adroddiad ei nodi gan y Cabinet.

## 489. CONTRACTAU CARTREFI GOFAL A GOFYNION CRONFA GYFUN

Cyflwynodd Rheolwr y Grŵp – Comisiynu Contractau a Pherfformiad adroddiad i ddiweddaru’r Cabinet ar gyfrifoldebau Awdurdodau Lleol mewn perthynas â chomisiynu gwasanaethau cartrefi gofal preswyl a nyrsio, ar ôl gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
Ceisiodd yr adroddiad gymeradwyaeth hefyd i barhau â'r hawlildiad o dan Reol Gweithdrefn Contract 3.2.3, o'r gofyniad i dendro'r ddarpariaeth gwasanaethau cartrefi gofal preswyl a nyrsio yn gystadleuol am gyfnod o flwyddyn arall ac i ymrwymo i gontractau newydd gyda darparwyr gofal preswyl a nyrsio presennol, a chychwyn contractau gydag unrhyw ddarparwyr newydd a nodwyd gan yr Awdurdod Lleol, am gyfnod contract o flwyddyn; er mwyn gweithredu a gwneud taliadau i gartrefi gofal yn erbyn Amserlen Prisiau Safonol ar gyfer Cartrefi Gofal ddiwygiedig ar gyfer 2020/21 ac i ymrwymo i Gytundeb Cronfa ar y Cyd a threfniadau ar gyfer swyddogaethau llety cartrefi gofal pobl hŷn gyda phartneriaid Cwm Taf Morgannwg.

Amlinellodd Rheolwr y Grŵp – Comisiynu Contractau a Pherfformiad y cefndir a'r sefyllfa bresennol o ran contractau cartrefi gofal. Adroddodd am gywiriad i'r adroddiad, paragraff 4.11 - “Mae'r ymgysylltiad cychwynnol hwn yn cael ei ddilyn gan ddrafft terfynol a gaiff ei ddosbarthu ym mis Chwefror 2020” a ddylai ddarllen “Mawrth 2020”. Esboniodd yr Atodlen Prisiau Cartrefi Gofal ar gyfer 2020/21, taliadau costau ychwanegol atodol ar gyfer trydydd partïon a sut mae cyfraddau 2019-20 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cymharu â chyfartaleddau cenedlaethol. Adroddodd ynghylch y gofyniad i sefydlu a chynnal cronfa ranbarthol ar y cyd mewn perthynas â chyflawni eu swyddogaethau llety cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn. Ychwanegodd fod cytundeb cronfa ar y cyd drafft sy'n seiliedig ar delerau'r trefniant Cwm Taf presennol wedi'i baratoi a'i fod yn destun adolygiad a chytundeb ar hyn o bryd.

Adroddodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod hwn yn adroddiad cynhwysfawr sy'n amlinellu'r hyn a gyflwynodd yr awdurdod a safle'r awdurdod yng Nghymru. Roedd angen cwrdd â phwysau cost gwerth £157,000 trwy'r adnoddau presennol a/neu drwy wneud arbedion effeithlonrwydd mewn mannau eraill o fewn y gyfarwyddiaeth. Roedd yn ddefnyddiol bod trefniadau cyllido ar y cyd ar waith a chyda chostau cynyddol ar gyfer darpariaeth gofal nyrsio, roedd yn rhaid iddynt nodi pa ofal oedd ar gael yn ychwanegol i'r 420 o leoliadau presennol.

Atebodd Rheolwr y Grŵp – Comisiynu Contractau a Pherfformiad eu bod yn adolygu lleoliadau ac yn ystyried gweithio gyda darparwyr cartrefi gofal ychwanegol.

Gofynnodd Aelod y Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol a oedd cronfa ar y cyd ar gael yn barod yng Nghwm Taf. Esboniodd Rheolwr y Grŵp – Comisiynu Contractau a Pherfformiad fod cronfa ar y cyd ar waith a bod y ddau awdurdod arall eisoes yn rhan ohoni. Roedd wedi mynychu rhai o'r cyfarfodydd yn barod felly roedd ganddo syniad da o sut roedd yn gweithio.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ei bod yn ofynnol ledled Cymru bod pawb yn ymrwymo i drefniant ar y cyd. Nid oeddent wedi ymrwymo i drefniant ar y cyd eto oherwydd eu bod wrthi’n symud i Gwm Taf.

Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd a oedd y rhestr o ddarparwyr gofal preswyl a nyrsio presennol a gynhwysir yn yr adroddiad yn rhestr ddiffiniol. Atebodd Rheolwr y Grŵp – Comisiynu Contractau a Pherfformiad ei bod yn rhestr o ddarparwyr achrededig a darparwyr sydd ar gontract. Os bydd y galw yn cynyddu, byddent yn edrych ar ymrwymo i gontractau os byddai angen.

Gofynnodd yr Arweinydd am daliad premiwm ar gyfer darparwyr sy'n darparu lefel uwch o ofal a'r gydran Gofal Nyrsio a Ariennir (FNC). Esboniodd Rheolwr y Grŵp - Comisiynu Contractau a Pherfformiad fod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad ac yna amlinellodd y modd y cafodd ei gyfrifo a chadarnhaodd ei fod wedi cael ei gyllido. Ychwanegodd fod ymweliadau monitro cadarn ar waith a bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda darparwyr gofal. Roedd systemau ar waith i atgyfeirio pryderon gan gynnwys atal derbyniadau pe bai angen.

<u>PENDERFYNWYD</u>: Cabinet:

- Rhoddwyd cymeradwyaeth i barhau â'r hawlildiad o dan Reol Gweithdrefn Contract 3.2.3, o'r gofyniad i dendro'n darpariaeth gwasanaethau cartrefi gofal preswyl a nyrsio yn gystadleuol am gyfnod o flwyddyn arall.
- Rhoddwyd cymeradwyaeth i ymrwymo i gontractau newydd sy'n seiliedig ar y contract cyffredin a'r fanyleb y cytunwyd

arnynt gyda darparwyr gofal preswyl a nyrsio presennol (Atodiad 1), ac i ymrwymo i gontractau gydag unrhyw ddarparwyr newydd a nodwyd gan yr Awdurdod Lleol, am gyfnod contract o flwyddyn.

- Nodwyd y byddai Swyddogion yn ystod y cyfnod o flwyddyn hwnnw yn monitro effeithiolrwydd y telerau ac amodau cytundebol rhanbarthol newydd, yn cysylltu â darparwyr gwasanaethau achrededig presennol ac yn ystyried dichonoldeb sefydlu fframwaith hyblyg o ddarparwyr cartrefi gofal a gafaelir yn agored sy'n seiliedig ar delerau ac amodau'r contract a manyleb ranbarthol am gyfnod hirach.
- Rhoddwyd cymeradwyaeth i weithredu a gwneud taliadau i gartrefi gofal yn erbyn Amserlen Prisiau Safonol ar gyfer Cartrefi Gofal ddiwygiedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 - paragraff 4.22.
- Dirprwyodd awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, mewn ymgynghoriad â Swyddog Adran 151 a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, i drafod ac ymrwymo i Gytundeb Cronfa ar y Cyd a threfniadau ar gyfer swyddogaethau llety cartrefi gofal pobl hŷn gyda phartneriaid rhanbarthol (Cwm Taf Morgannwg).

490. <u>DATBLYGU CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020-2024</u>

Cyflwynodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 y Cyngor i'r Cabinet er mwyn ei gymeradwyo. Nodwyd gwall yn yr adroddiad, dylai pwynt bwled 5 ar dudalen 73 o becyn yr agenda ddarllen “rydym wedi ymgynghori ar gynigion yn ddiweddar” nid “rydym wedi ymgynghori ar gynigion yn 2018/19”.

Amlinellodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb yr ymarfer ymgynghori ac ymgysylltu a chynghorodd fod amcanion wedi'u gosod yn unol â chanfyddiadau adroddiad ac ymgynghoriad cyhoeddus “A yw Cymru yn Decach?" y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Amlinellodd y chwe amcan trosfwaol a ddatblygwyd er mwyn adlewyrchu barn preswylwyr a rhanddeiliaid o bob rhan o'r fwrdeistref sirol. Dyma oedd sylfaen ymarfer ymgynghori’r cyngor a ddechreuodd ar 23 Rhagfyr 2019 ac a ddaeth i ben ar 9 Chwefror 2020. Ymgysylltodd y Cyngor â 220 o breswylwyr i gyd a derbyniodd 424 o ymatebion i'r arolwg. Defnyddiwyd yr ymatebion i'r arolwg a dderbyniwyd a'r adborth a gafwyd i gefnogi datblygiad terfynol yr amcanion cydraddoldeb.

Esboniodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb y byddai cynllun gweithredu manwl yn cael ei ddatblygu yn ystod mis Mai a Mehefin 2020 fyddai'n amlinellu'r tasgau a'r camau gweithredu penodol sydd angen eu cymryd dros y pedair blynedd nesaf a byddent yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Byddai'r cynllun gweithredu terfynol yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet ar gyfer ei gymeradwyo ym mis Gorffennaf 2020.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol fod gan y ddogfen hon naws wahanol i'r un a etifeddwyd ganddynt ac y gallai weld bod llawer o waith wedi cael ei wneud arni. Roedd gan y ddogfen hefyd synergeddau ag amcanion Llywodraeth Cymru ac roedd yn llawer cliriach i aelodau'r cyhoedd ei deall.

Cytunodd yr Arweinydd fod llawer o waith wedi'i wneud i ddatblygu’r ddogfen ac yn bwysicach fyth, y cynllun gweithredu. Gofynnodd sut byddai'r gwerthoedd, yr amcanion

a'r weledigaeth yn cael eu gweithredu. Esboniodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb y byddai'r cynllun gweithredu terfynol yn darparu'r manylion hyn. Byddai gan y Bwrdd Rheoli Corfforaethol rôl yn y gwaith o fonitro'r effaith.

Ychwanegodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb fod rhaid i swyddogion herio eu hunain a bod yn ysbrydoledig wrth ystyried prosesau adrodd a monitro ac adlewyrchwyd hyn yn y cynllun gweithredu.

Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn awyddus i'r awdurdod archwilio "Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth" gyda phobl ifanc gan fod hyn yn parhau i fod yn broblem gynyddol. Atebodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb fod ymrwymiad wedi'i wneud i barhau i weithio gydag ysgolion ac i alluogi staff o fewn ysgolion i gynnig hyfforddiant i'w wneud yn fwy cynaliadwy.

Esboniodd y Prif Weithredwr fod cais wedi'i wneud am Grynodeb Gweithredol ac y gallai hynny ychwanegu gwerth a gwneud y ddogfen yn fwy hygyrch. Bu aelodau'n trafod y dogfennau a grëwyd gan awdurdodau eraill a phwysigrwydd canolbwyntio ar gamau gweithredu. Awgrymodd yr Arweinydd y dylid ychwanegu gwaith yn ymwneud â ffoaduriaid, agor y Ganolfan Adnoddau Dysgu a'r ymrwymiad i ddatblygu gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg at y ddogfen.

<u>PENDERFYNWYD</u>: Cymeradwyodd a mabwysiadodd y Cabinet Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 yr awdurdod.

491. <u>POLISI DERBYNIADAU YSGOLION 2021-2022</u>

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd Bolisi Derbyniadau Ysgolion 2021-2022 i'w gymeradwyo gan y Cabinet. Esboniodd fod y Cod yn cynnwys canllawiau ymarferol a'i fod yn gosod gofynion ar awdurdodau lleol ac awdurdodau derbyn ynghylch cyflawni dyletswyddau mewn perthynas â derbyniadau ysgol. Roedd yn ofynnol bod yr awdurdod lleol yn cyhoeddi polisi derbyn a chanllawiau ar drefniadau derbyn ar gyfer ei ysgolion yn flynyddol.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd mai'r cyfnod ymgynghori ar gyfer polisi 2021-2022 oedd 20 Ionawr 2020 hyd at 17 Chwefror 2020 ac na dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan randdeiliaid.

Esboniodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio nad oedd unrhyw newidiadau sylweddol i'r polisi ond bod y ddogfen hon yn cyflwyno'r wybodaeth yn gliriach, yn enwedig y meini prawf a'r negeseuon allweddol.

Ychwanegodd yr Arweinydd na ddylai rhiant dybio y byddai ei blentyn yn cael cynnig lle yn awtomatig ar bob cam o'i addysg a bod rhaid gwneud cais. Cyfeiriodd at yr adran "Plant personél Lluoedd Arfog y DU a Gweision eraill y Goron sy'n gwasanaethu (gan gynnwys diplomyddion)" a'r statws disgwyliedig ar gyfer terfynau maint dosbarthiadau babanod a gofynnodd a oedd y grŵp hwn yn cael ei flaenoriaethu o fewn y meini prawf o ran mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael. Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd nad oedd yn cael ei flaenoriaethu a bod y meini prawf o ran mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael mewn fformat cyffredin sy'n cydymffurfio â'r cod.

Gofynnodd yr Arweinydd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd a oeddent wedi ymgynghori â'r ACau a'r ASau lleol am y Cod. Atebodd eu bod wedi cael cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein.

Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd sut mae dalgylchoedd ysgolion yn cael eu diffinio. Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd eu bod yn hanesyddol yn bennaf ac, yn amodol ar benderfyniad ynglŷn â chludiant o'r cartref i'r ysgol yn y dyfodol, gallent ystyried ailedrych ar y polisi neu ei newid yn y dyfodol. Roedd rhaid iddynt adlewyrchu cyfyngiadau daearyddol, cyfleustra i rieni, llwybrau cerdded diogel a thrafnidiaeth. Gwnaed yr unig newidiadau i ddalgylchoedd yn ddiweddar ar ôl cwblhau ysgol newydd neu newid polisi.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyodd y Cabinet Bolisi Derbyniadau Ysgolion 2021-2022.

492. ADNEWYDDU YSWIRIANT

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad yn hysbysu'r Cabinet o ganlyniad yr ymarfer ail-dendro ar gyfer y polisïau Moduron, Gwarant Ffyddlondeb, Cyfrifiaduron, Arolygu Peirianneg, Damweiniau Personol a Theithio, a Theithiau Ysgol a cheisiodd gymeradwyaeth gan y Cabinet i awdurdodi Marsh UK Limited fel brocer yswiriant penodedig y cyngor, i dderbyn yswiriant ar gyfer yr amrediad llawn o bolisïau ar ran y Cyngor.

Esboniodd y Prif Weithredwr, er bod yswiriant y Cyngor yn destun cytundebau hirdymor gyda darparwyr, bod angen i'r Cyngor gytuno ar bremiymau blynyddol a chostau trin hawliadau cysylltiedig ar gyfer pob polisi bob blwyddyn yn unol â'r cytundebau hynny. Roedd y polisïau a nodir uchod yn destun cytundebau hirdymor y disgwyliwyd iddynt ddod i ben ar 30 Mawrth 2020. Felly cynhaliwyd ymarfer ail-dendro ar gyfer y polisïau hyn trwy System Prynu Dynamig ar gyfer Gwasanaethau Yswiriant y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd ei fod wedi nodi y cafwyd ambell gynnydd “enfawr” megis y cynnydd o 72% ar gyfer Damweiniau Personol a Theithio ond mai hwn oedd y tendr mwyaf cystadleuol oedd ar gael.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyodd y Cabinet dderbyn y dyfynbrisiau ym mharagraffau 4.1 a 4.3 ac adnewyddu'r rhaglen yswiriant trwy Marsh UK Limited fel Brocer Yswiriant penodedig y Cyngor.

493. ADRODDIAD GWYBODAETH I'W NODI

Cyflwynodd y Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio adroddiad i hysbysu'r Cabinet o'r adroddiad gwybodaeth i'w nodi a gyhoeddwyd ers y cyfarfod diwethaf a drefnwyd.

Rhoddodd yr Arweinydd ganmoliaeth i'r tair ysgol am y dyfarniadau a wnaed yn dilyn yr arolygiadau diweddar; Ysgol Gynradd Tondu, Ysgol Uwchradd Gatholig Archesgob McGrath ac Ysgol Gynradd Coety.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn nodi’r adroddiad.

494. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: O dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007, y dylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r eitem fusnes ganlynol gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y

diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 a/neu Baragraff 21 o Ran 5 Atodlen 12A o'r Ddeddf.

Yn dilyn cymhwysiad o brawf budd y cyhoedd, penderfynwyd, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati uchod, y dylid ystyried yr eitem ganlynol yn breifat, gan wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, oherwydd yr ystyriwyd ym mhob un o'r amgylchiadau sy'n ymwneud â'r eitem, bod budd y cyhoedd wrth gynnal yr eithriad yn gorbwyso budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth, oherwydd byddai'r wybodaeth yn rhagfarnus i'r ymgeiswyr a grybwyllwyd.

495. SEFYDLU CYTUNDEB FFRAMWAITH AR GYFER DARPARU GWASANAETHAU BYW Â CHYMORTH

496. EITEMAU BRYS

Daeth y cyfarfod i ben am 16:40